12 Tachwedd 2014

Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr R Dart, Mr D Fordham, Ms L Fowlie, Mr A Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr D Owen, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Yr Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Yr Athro J Hughes, Mrs L Meadows, Yr Athro D Shepherd, Mr E Roberts, Mr R Taylor.

Dywedwyd bod yr Athro P Spencer wedi'i benodi gan y Cyngor yn Gadeirydd newydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. Diolchodd Yr Athro Spencer i Dr D Assinder am ei waith fel y Cadeirydd blaenorol.

Croesawyd Mrs E Parry Williams fel y cynrychiolydd newydd iechyd a diogelwch dros y Cyngor.

Yn dilyn ei ymddeoliad fis Hydref, diolchwyd i Joe Patton, Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol, am ei ymdrechion a'i ymroddiad yn cynorthwyo a chefnogi staff.

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2014 wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi..

a) Cofnod 437 (a) Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol:
Nodwyd bod angen Cadeirydd newydd i'r Is-bwyllgor ac y rhoddir sylw i hynny cyn y cyfarfod nesaf.

Cyflwynwyd adroddiad byr gyda'r eitemau allweddol a ganlyn yn cael eu nodi:

*i.* *Cyllideb:* Yn dilyn pennu cyllideb 2014/15, mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau'n ymgymryd â monitro ac archwilio manylach ar gyfer y meysydd nas cyllidwyd.

*ii.* *Gweithgor Mynediad Corfforol:* Mae swm sylweddol pellach wedi'i bennu i wella hygyrchedd ar draws yr ystâd.

*iii.* *Adolygiad Archwiliwr Allanol:* Bydd gwaith yn dechrau'n fuan i roi sylw i'r camau gweithredu a nodwyd gan yr Adolygiad.

iv. *Prif Brojectau:* Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n ddigonol gan y prif gontractwyr ar yr holl brif brojectau adeiladu. Lle nodwyd meysydd y gellid eu gwella, rhoddwyd gwybod am hynny i'r contractwyr. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau amser i gwblhau rhai o'r projectau hyn, cytunwyd y bydd Ystadau'n ysgrifennu at y prif gontractwyr i'w hatgoffa o'r angen i weithredu safleoedd diogel.

v. *Parcio Ceir:* Mae cynlluniau ar y gweill i roi sylw i faterion yn ymwneud â pharcio ceir ar draws yr ystâd, yn cynnwys:

a) Rheolaeth dynnach ar nifer y trwyddedau parcio a roddir i gontractwyr.

b) Mwy o fonitro ar ddefnydd meysydd parcio.

c) Gweithredu'n gadarn os gwelir nad oes gan gerbydau drwyddedau neu eu bod wedi'u parcio'n amhriodol.

d) Darparu lle parcio ychwanegol ar safle uchaf y Normal.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn lle nodwyd pryderon ynghylch parcio amhriodol ar Safle'r Gwyddorau yn ystod Dyddiau Agored ac ar Safle'r Normal pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer parcio gan Glwb Pêl-droed Dinas Bangor. Cytunodd yr Adran Ystadau a Chyfleusterau i ymchwilio i'r materion a godwyd.

Rhoddwyd adroddiad ar drefniadau iechyd a diogelwch Coleg Bangor yn Tsiena. Nodwyd bod yr adroddiad, fel y cafodd ei gynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor, yn grynodeb o bapur mwy manwl a baratowyd yn gynharach ar gyfer sefydlu ac agor Coleg Bangor yn Tsiena.

Yn arbennig, nodwyd bod y sefydliad partner yn cael ei ystyried yn 'endid cyfreithiol' dan gyfraith Tsieineaidd. Mae'r dynodiad hwn, a nodwyd yn y Cytundeb Gweithredu, yn golygu mai'r sefydliad partner, dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch Tsieineaidd, sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros les y staff a'r myfyrwyr.

Cadarnhawyd y bydd y trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu datblygu ymhellach cyn gynted ag y bydd Dirprwy Ddeon newydd y Coleg, aelod o staff Bangor, yn dechrau yn ei swydd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon iechyd a diogelwch o bwys.

Dim.